**ARD 02-03(p1)**

# Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG - DYDD MERCHER 29 IONAWR 2003

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDATBLYGU GWLEDIG

### Adolygiad Canol Tymor o'r PAC

1. Cafodd testun drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi pecyn yr adolygiad canol tymor ar waith ei gyhoeddi ar 22 Ionawr. Trafodir hyn am y tro cyntaf yng Nghyngor Gweinidogion Amaeth yr UE y byddaf yn mynd iddo ar 27 Ionawr. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor yn eitem 4 ar agenda'r Pwyllgor.

### Y Gyfundrefn Symud Da Byw

2. Ar 23 Ionawr, cyhoeddwyd newidiadau pwysig i'r drefn symud anifeiliaid yn y Gwanwyn yng Nghymru a Lloegr, ar ôl trafodaethau dwys â'r rheini sy'n gysylltiedig â'r mater yng Nghymru. Disgwylir i'r newidiadau a gyhoeddwyd ddod i rym ddydd Mawrth 4 Mawrth yn amodol ar ganlyniad boddhaol i'r ymgynghoriad â'r diwydiant da byw. Ceir mwy o fanylion yn y nodyn yn Atodiad 1.

### Cymorthdaliadau'r PAC

3. Ceir y diweddaraf am sefyllfa taliadau fesul Cynllun fel ag yr oedd ddiwedd dydd ar 23 Ionawr 2003 yn Atodiad 2. Rhoddir adroddiad llafar pellach ar y sefyllfa yng nghyfarfod y Pwyllgor.

### Cyswllt Ffermio

4. Ceir y diweddaraf am y gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn Atodiad 3.

### Stoc Marw

5. Bydd Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yr UE yn gwahardd claddu a llosgi carcasau ar ffermydd yn yr Aelod-wladwriaethau o 30 Ebrill 2003. Seiliwyd y Rheoliad ar gyngor Pwyllgor Llywio Gwyddonol yr UE. Yr unig eithriadau i'r gwaharddiad ym Mhrydain fydd mewn ardaloedd anghysbell lle nad oes llawer o dda byw (rhannau o Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban) ac yn ystod achosion o afiechydon hysbysadwy. Rwy'n cefnogi'r defnydd o losgyddion lleol o dan yr amgylchiadau priodol. Rwyf hefyd yn deall bod sylwadau wedi'u cyflwyno i

bwyllgor gwyddonol priodol yr Undeb Ewropeaidd o blaid defnyddio biodreulwyr i ddelio â stoc marw. Rwy'n cymeradwyo'r dull cynaliadwy hwn ac yn edrych 'mlaen â diddordeb at ymateb yr arbenigwyr Ewropeaidd.

6. Bydd gan y Rheoliad oblygiadau, ymarferol ac ariannol, ar y diwydiant da byw yng Nghymru. Ers Ebrill 2002, mae Adrannau Amaethyddiaeth y DU, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, wedi bod yn cynnal trafodaethau ag aelodau'r diwydiant da byw a gwaredu, gan gynnwys ffermwyr yng Nghymru gyda'r nod o ddatblygu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu cynllun gwaredu stoc marw. Rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw hyn i ffermwyr da byw Cymru, ac rwy'n bryderus nad yw'r adrannau amaethyddiaeth a'r diwydiant wedi cytuno eto ar y ffordd ymlaen. Rwy'n gobeithio y gall y diwydiant barhau i gyflwyno cynigion a fydd yn golygu bod modd rhannu costau mewn cynllun ymarferol. Er hynny, yn ôl cyngor cyfreithiol os oes trefniadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd o'r DU, gyda gwahanol fecanweithiau ar gyfer rhoi cymorth, gallai cwestiynau godi yn ymwneud â gwahaniaethu o fewn aelod-wladwriaeth a byddai angen eu hystyried yn ôl eu rhinweddau.

7. Rwyf wrthi'n trafod â Gweinidog y DU i dynnu ei sylw at yr anawsterau a fydd yn wynebu ffermwyr da byw Cymru pan fydd y Rheoliad yn dod i rym.

**Gwaredu Gwaed**

8. Mae Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yr UE hefyd yn nodi lle y gellir gwaredu gwaed a deunyddiau gwastraff eraill o ladd-dai. Gellir eu gwaredu'n uniongyrchol mewn llosgydd neu safle tirlenwi; fel deunydd crai mewn ffatri bwyd anifeiliaid anwes, neu i'w ddefnyddio fel gwrtaith organig ar yr amod bod y deunyddiau wedi cael eu trin yn gyntaf mewn ffatrioedd rendro, compostio neu fiogas cyn eu gwaredu. Felly, ni fydd yn bosibl mwyach i ladd-dai gael gwared ar waed heb ei drin trwy ei arllwys i garthffosydd neu ei wasgaru ar y tir.

9. Rydym yn sylweddoli y bydd hyn yn achosi problemau i rai lladd-dai nad oes ganddynt fodd ar hyn o bryd i gasglu gwaed i'w waredu yn ôl y dulliau a ganiateir o dan y Rheoliad. Mae Adrannau Amaethyddiaeth y DU, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, yn gweithio felly gydag arbenigwyr technegol i lunio canllawiau ar ffyrdd syml a rhad o osod cyfleusterau casglu gwaed mewn llad-dai. Disgwylir adroddiad cyn hir oddi wrth y gweithgor a sefydlwyd i ystyried yr opsiynau cost isel hyn.

**Gweld Cath Fawr**

10. Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw ymchwilio i'r honiadau a wnaed gan bobl eu bod wedi gweld cathod mawr yng Nghymru, a'r honiadau eu bod wedi ymosod ar dda byw. Mewn achosion lle ceir tystiolaeth, mae staff o Uned Bywyd Gwyllt yr Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ymweld â'r safle, yn caglu carcasau ar gyfer post mortem, yn edrych ar dystiolaeth fideo, yn gwneud cast o olion pawennau ac yn ymchwilio i unrhyw dystiolaeth

bosibl arall sydd ar gael o rywogaeth egsotig. Mae'r dystiolaeth wedyn yn cael ei hasesu gyda chymorth arbenigwyr bywyd gwyllt Prydain yn ogystal â chan adrannau ymchwil swau a phrifysgolion a'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol. Mae ffeil o dystiolaeth a gasglwyd yng Ngorllewin Cymru dros y 6 mis diwethaf wedi cael ei hanfon at arbenigwyr cathod mawr yn yr UDA, Canada a'r Alban. Gofynnwyd hefyd am farn arbenigwyr mamaliaid o Brydain a'r RSPCA ar y dystiolaeth.

11. Mae pob adroddiad honedig o weld y gath yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata gan yr Uned Bywyd Gwyllt. Mae trefniadau ar y gweill i swyddogion gyfarfod ag ardal pedair heddlu i ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd.

12. Roedd yr Uned Bywyd Gwyllt yn rhan o'r ymchwiliad i'r digwyddiad yn Llangadog o'r dechrau. Maent wedi bod yn rhoi cymorth technegol i Heddlu Dyfed-Powys, sy'n gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd, drwy gydol eu hymchwiliad. Bu staff o'r Uned Bywyd Gwyllt yn ymweld â'r ardal ac yn chwilio'n fanwl am dystiolaeth maes i'w hasesu fel olion pawennau, baw, a blew ar y safle ac yn y cyffiniau. Aeth fy swyddogion â charcas whippet o'r safle a threfnu bod post mortem a dadansoddiad DNA yn cael eu cynnal. Yn ôl y post mortem roedd y ci wedi marw o anafiadau a achoswyd wrth ymladd ag anifail ysglyfaethus, ond nid oedd hi'n bosibl dweud beth oedd rhywogaeth yr anifail hwnnw. Mae dadansoddiad DNA a sganio microsgopeg electronig yn cael eu cynnal ar hyn o bryd a disgwylir y canlyniadau cyn hir.

**Cynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru (WEGS II)**

13. Ar 21 Ionawr, cyhoeddais fod ymgynghoriad ar Gynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru (WEGS 2) yn cael ei lansio.

14. Cynllun tair blynedd gwerth £10.5 miliwn yw'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu i wella ymwrthedd praidd Cymru i'r ysfa (clefyd y crafu). Roedd model a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn dangos bod strwythur genetig praidd mynydd Cymru yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddal yr ysfa. Mae WEGS 2 wedi'i ddatblygu, felly, fel cynllun sy'n unigryw i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sydd wedi'i deilwra i gwrdd ag amgylchiadau arbennig y diwydiant defaid yng Nghymru. Mae hyn yn ganlyniad i gydweithio clos â'r diwydiant defaid yng Nghymru. Rhoddwyd cyfle i rai ffermwyr ymuno am y tro cyntaf â'r cynllun geneteipio mamogiaid yng Nghymru drwy WEGS 1 a oedd yn cael ei redeg gan Strategaeth Defaid Cymru ar ran y Cynulliad yn 2001. Bydd WEGS 2 yn gynllun llawer mwy a fydd yn ceisio genoteipio tua 450,000 o famogiaid dros gyfnod o dair blynedd.

15. Cynigir bod holl ffermwyr Cymru sydd â phreiddiau pedigri neu frid pur yn cael ymuno â'r cynllun erbyn tymor bridio eleni. Bydd y cynllun, sy'n wirfoddol, yn cael ei weinyddu gan Gynllun Cenedlaethol yr Ysfa ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn cynnal profion di-dâl a chaiff y defaid eu nodi'n electronig. Bydd ffermwyr yn cael eu hannog i fridio o ddefaid sy'n gallu gwrthsefyll y clefyd a bydd gofyn iddynt

ddifa mamogiaid sy'n agored iddo. Ni thelir iawndal am y bydd modd i'r defaid hyn gael eu cynnwys yn y gadwyn fwyd. Gall ffermwyr gael cyngor ar fagu ymwrthedd i'r ysfa drwy Cyswllt Ffermio ac mae'n bosibl, cyn belled â'i fod yn gyson â'r Rheolau ar Gymhorthion Gwladol, y bydd cynllun ffrwythloni artiffisial ar gael.

**Prosesu coed**

16. Ddydd Iau 23 Ionawr, bum yn ymweld ag ystâd goedwigaeth 200 hectar Roger Williams-Ellis yng Nglasfryn, Pen Llyn. Mae Mr Williams-Ellis wedi arallgyfeirio ei ystâd goedwigaeth, sydd â thua 90% o goed pyrwydd sitca, drwy ddatblygu ei fusnes prosesu coed ei hun. Sefydlodd ei fusnes ym 1989 ac yn awr mae ganddo enw da iawn am gynhyrchu pyst ffensio wedi'u trin o'r ansawdd gorau yng Ngogledd Cymru. Yn awr mae'n cyflogi 17 o bobl yng Nglasfryn ac yn bwriadu ehangu ymhellach yn y felin goed. Mae hyn yn enghraifft dda o sut y gellir ychwanegu gwerth mawr at gynnyrch nwyddau sylfaenol drwy eu prosesu a'u gwerthu i farchnad gystadleuol iawn a thrwy ganolbwyntio ar ansawdd uchel ac ar reoli costau'n ofalus. Yn anffodus, mae hyfywedd tymor hir mentrau coedwigoedd conifferaidd yn parhau'n ysglyfaeth i brisiau pren.

**Cyfarwyddwr y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru**

17. Un o gasgliadau'r Adolygiad ar Ddatganoli Coedwigaeth, a oedd yn adolygu opsiynau pellach ar gyfer datganoli trefniadau gweinyddu ar gyfer darparu polisïau coedwigaeth cynaliadwy yng Nghymru, oedd penodi Comisiynydd o Gymru ar y Bwrdd Comisiynwyr. Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r bwrdd, rwy'n falch cyhoeddi bod Simon Hewitt wedi cael ei benodi i'r swydd hon, yn bennaeth ar Swyddfa Genedlaethol Cymru gyda chyfrifoldeb am holl waith y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys rheoli Menter Coedwigaeth Cymru yn uniongyrchol, a fydd yn awr yn dod yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn hytrach na bod yn rhan o'r asiantaeth ym Mhrydain, fel y mae wedi bod hyd yn hyn. Mae Simon yn ymuno â'r ddau Gomisiynydd anweithredol o Gymru sydd ar y Bwrdd, Gareth Wardell ac Anthony Bosanquet. Mae argymhellion sydd ar ôl yn yr Adolygiad o Ddatganoli Coedwigoedd wrthi'n cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys gweithio'n agosach ag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad, yn arbennig ar faterion gwledig. Byddaf yn adrodd ar hynt y rhain yn fanylach wrth iddynt ddatblygu.

18**. Polisi Ail blannu**

Rwyf wedi dechrau adolygiad o'r polisi ail blannu ar ystâd goedwigaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn cael ei wneud yng nghyd-destun "Coetiroedd i Gymru", strategaeth y Cynulliad ar gyfer Coed a Choetiroedd. Bydd yr adolygiad yn ystyried beth fydd cyfran y gorchudd llydanddail mewn 10 ac 20 mlynedd, ac yn rhoi opsiynau ar gyfer cyflymu'r gwaith o gynyddu hyn. Mae'r Fforwm Coetiroedd yn rhoi cyngor i mi ar faterion o'r fath ac mae wedi bod yn ystyried y polisi ail blannu dros y flwyddyn ddiwethaf; bydd y Fforwm yn cyfarfod ym mis

Mawrth, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad wedi hynny i nodi i ba gyfeiriad y byddwn yn mynd.

Byddaf hefyd yn adolygu pa mor gyflym yr ydym yn cyflawni'r nod, sydd wedi'i gynnwys yn Coetiroedd i Gymru, o drawsnewid hanner arwynebedd coetir y Cynulliad i reolaeth gorchudd di-dor dros y 20 mlynedd nesaf.

**Adroddiad ar Ddeddfwriaeth**

19. Ceir fy adroddiad rheolaidd ar ddeddfwriaeth arfaethedig ac eitemau eraill yn ymwneud ag is-ddeddfwriaethau sydd ar y gweill yn Atodiad 4.